**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 16 Ionawr 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | P R Hood-Williams | P K Jones |
| M A Langstone | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw

---

## 29 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Y Cynghorydd P R Hood-Williams - Cofnod - Ymateb Aelod y Cabinet mewn perthynas ag Adroddiad y Panel Ymchwiliad Craffu (Twristiaeth). Rwyf yn Gadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Abertawe.

## 30 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

## 31 Ymateb Aelodau'r Cabinet Mewn Perthynas ag adroddiad Panel yr ymchwiliad craffu (Twristiaeth).

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod yr eitem wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig gan yr ymdriniwyd â'r eitem hon eisoes gan y panel craffu a'r Cabinet. Yn ogystal, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lleoedd nad oedd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth yn bresennol yn y cyfarfod am ei fod ar wyliau.

Roedd cwestiynau/sylwadau aelodau'n cynnwys:

1) Ystyried y Cynllun Rheoli Cyrchfannau wedi 2020.
2) Gofyn i'r Cabinet ailystyried yr argymhellion a wrthodwyd yn flaenorol o ystyried y setliad cyllidebol gwell.
3) Cyfrifoldeb hyrwyddwyr mewn perthynas â gosod arwyddion a chlirio'r safle'n effeithiol ar ôl digwyddiad.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Byddai'r Cyfarwyddwr Lleoedd yn cyflwyno adroddiad diweddaredig mewn cyfarfod yn y dyfodol ynghylch cyfrifoldebau hyrwyddwyr yn dilyn digwyddiad.
2) Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth ynghylch ailystyried yr argymhellion a wrthodwyd, a datblygiad Cynllun Rheoli Cyrchfannau 2017-2020.

## 32 Adborth o ymweliad safle â chartrefi fel gorsafoedd pwer.

Dywedodd aelodau fod yr ymweliad yn gynhyrchiol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod:

1) Y prosiect yn parhau i fod yn waith ar y gweill.
2) Caiff costau cyfalaf eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
3) Pe bai aelodau'n dymuno, gellir hwyluso ymweliadau safle â chynghorau eraill.
4) Awgrymir rhoi 15-20mil o arian y Fargen Ddinesig i bob uned, er ni chytunwyd ar hyn yn swyddogol.
5) Mae'r PDP Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol yn ymdrin ag argyfwng hinsawdd, felly mae angen i ni sicrhau nad yw llwythi gwaith PDP yn gorgyffwrdd.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 33 Trafodaeth ar y cynllun gwaith ar gyfer 2020.

Darparodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad ynghylch buddsoddi yn y ddinas.

Nododd yr aelodau'r caniatâd a lefelau'r cyllid y cytunwyd ei ddyrannu fesul cam.

Manylodd yr Arweinydd ar argaeledd benthyca ar gyfradd ostyngol gan y Trysorlys. Nododd pa mor bwysig oedd defnyddio unrhyw elw ar gyfer cynlluniau newydd.

Manylodd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Lleoedd ar y cynnydd a wnaed yng nghanol y ddinas, i goridor yr afon a menter *Skyline*

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Lleoedd am y diweddariad llawn gwybodaeth, a gadawodd y ddau y cyfarfod.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 34 Cynllun Gwaith 2019/2020.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynllun gwaith.

**Penderfynwyd** y dylai'r cynllun gwaith ar gyfer 2020/2021 gynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| 20 Chwefror 2020 | 1) Amnest Gwastraff (diweddariad) |
| 19 Mawrth 2020 | 1) Adroddiad Blynyddol 2019/2020<br>2) Goblygiadau Teithio Llesol yn Abertawe |
| 16 Ebrill 2020 | |

Cafwyd trafodaeth ynghylch eitemau i'w hystyried ar gyfer Cynllun Gwaith 2020/2021:

1) Toiledau Cyhoeddus.
2) Cynllun Rheoli Cyrchfannau.
3) Statws Aur Stryd y Gwynt
4) Newid yn yr Hinsawdd - goblygiadau posib dros y degawd nesaf (cadernid isadeiledd)
5) Cymorthdaliadau First Cymru a lleoliad safleoedd bysus
6) Ymweliadau â Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (awdurdodau lleol eraill)

Daeth y cyfarfod I ben am 3.28 pm

**Cadeirydd**